

ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT


Teitl y Cynnig: Rhaglen frechu feirws syncytiol anadlol (RSV)

Rhaid anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) sydd wedi'i gwblhau i flwch post CRIA@llyw.cymru

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i [Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn \(CCUHP\)](#) a'i [Brotocolau Dewisol](#) wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau.

Proses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yw'r mecanwaith y cytunwyd arno y dylai swyddogion ei ddefnyddio i gefnogi Gweinidogion i gyflawni'r ddyletswydd hon a sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth gytbwys i hawliau plant wrth wneud penderfyniadau. Dylid defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i lywio cyngor gweinidogol a rhaid ei gwblhau cyn gwneud penderfyniad gweinidogol. Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud, rhaid i'ch Asesiad gael ei gyhoeddi hefyd.

Sylwch fod gennym Grŵp Cyngori ar Hawliau Plant (CRAG) sefydledig, sy'n cynnwys swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, UNICEF, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, a Phlant yng Nghymru, y gellir ei ddefnyddio i drafod neu brofi eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Cysylltwch â'r Gangen Plant CRIA@llyw.cymru am ragor o wybodaeth.



I gael rhagor o gyngor ac arweiniad ar broses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, gweler [Llawlyfr Hawliau Plant i Staff](#) neu cysylltwch â'r Gangen Plant CRIA@llyw.cymru

1. Amcanion polisi

- Effaith pa benderfyniad ydych chi'n ei asesu?

Mae'r Cyd-bwyllgor Imiwneiddio a Brechu (JCVI) yn argymhell y dylid datblygu rhaglen imiwneiddio RSV, sy'n gosteffeithiol, ar gyfer babanod ac oedolion hŷn: <https://www.gov.uk/government/publications/rsv-immunisation-programme-jcvi-advice-7-june-2023>

Cynigir cyflwyno rhaglen frechu RSV i amddiffyn y grwpiau a argymhellir o hydref 2024.

2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a Phobl ifanc

Byddai brechiad RSV (fel pob brechiad) yn fesur ataliol i amddiffyn rhag y feirws RSV - gyda'r nod o gadw unigolion yn ddiogel rhag afiechyd difrifol, arosiadau yn yr ysbyty a marwolaeth. Byddai'r rhaglen frechu'n cyfyngu ar y gyfradd heintio ac yn lleihau nifer yr achosion difrifol yn y rhai sydd wedi'u himiwneiddio. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd y rhai sydd wedi'u brechu, yn enwedig y rhai sydd â'r risg fwyaf o salwch difrifol a bydd yn lleihau effaith RSV ar wasanaethau iechyd cyhoeddus, yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf pan fydd RSV yn fwyaf cyffredin.

Nid ydym wedi cwblhau unrhyw waith cyfranogol gyda phlant gan fod y rhaglen frechu mamau/babanod wedi'i thargedu at fenywod beichiog a babanod newydd-anedig (hyd at 27 diwrnod oed). Rydym wedi cysylltu â'r prif swyddog bydweigiaeth am fewnbwn ac wedi cynnal ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid gyda grwpiau fel y grŵp cynghori arweinwyr bydweigiaeth strategol a rhwydwaith mamolaeth a newyddenedigol Cymru gyfan i gael eu hadborth. Cysylltwyd â Chomisiynydd Plant Cymru, Plant yng Nghymru, UNICEF ac Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant hefyd.

Cawsom 2 ymateb gan randdeiliaid mewn perthynas â'r rhaglen menywod beichiog/babanod. Un gan Goleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH) Cymru a alwodd am weithredu ar unwaith gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno rhaglen RSV, gan dynnu sylw at yr amser cyfyngedig sydd ar gael i amddiffyn babanod rhag tymor RSV 2024. Eu dadl oedd y byddai rhoi un pigiad i fabanod erbyn Medi 2024 yn gwneud gwahaniaeth sylweddol y gaeaf nesaf. Roedd yr ymateb arall gan y Comisiynydd Plant a oedd yn gefnogol i gyflwyno'r rhaglen a chyfeiriodd at yr erthyglau i'w cynnwys (sydd wedi'u cynnwys yn adran 3 isod). Bydd yr adborth hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio cynllun cyfathrebu Iechyd Cyhoeddus Chymru a chynlluniau gweithredu Rhaglen Frechu Cymru i godi ymwybyddiaeth o RSV er mwyn sicrhau bod y nifer uchaf yn manteisio ar y brechlyn ym mhob cohort cymwys.

Yn 2022, lluniodd Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) [arolwg ar-lein](#) i ddarganfod beth oedd barn rhieni am frechu. Comisiynodd UKHSA y sefydliad rhianta masnachol, Bounty, i anfon e-bost gyda doler i'r arolwg yn gwahodd rhieni sydd wedi cofrestru â'u sefydliad ac sydd â phlant dros 2 fis oed ac o dan 5 oed i gymryd rhan yn yr arolwg. Cwblhawyd cyfanswm o 1,485 o arolygon gan

rieni plant rhwng 0 a 4 oed. Mae canfyddiadau'r arolwg a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2023 yn nodi fel a ganlyn:

Roedd gan rieni lefel uchel o hyder yn y rhaglen frechu:

- 95% yn cytuno bod brechlynnau'n gweithio
- 91% yn credu bod brechlynnau'n ddiogel
- 90% yn cytuno bod ganddynt ymddiriedaeth mewn brechlynnau
- 90% o rieni yn cytuno eu bod yn hoffi i'w plant gael eu brechu yn eu meddygfa
- 98% o rieni yn cytuno eu bod yn hoffi cael eu hatgoffa am apwyntiadau ar ddod drwy neges destun neu e-bost

Mae gan lechyd Cyhoeddus Cymru rôl wrth ymgysylltu â'r cyhoedd a sefydliadau statudol a thrydydd sector amrywiol i gael darlun ymddygiadol o'r rhwystrau, canfyddiadau a phrofiadau mewn perthynas â rhaglenni brechu yng Nghymru. Mae'r sefydliad yn defnyddio gwahanol offerynnau a dulliau i ymgysylltu'n uniongyrchol â grwpiau i lywio strategaethau cenedlaethol a gwelliannau i wasanaethau a dylanwadu arnynt. Y nod yw mynd ati i gynnwys gwahanol garfannau o'r cyhoedd, fel grwpiau ethnig lleiafrifol¹ wrth ddatblygu adnoddau ac ymyriadau, gyda'r nod o lywio a meithrin ymddiriedaeth. Fel rhan o [Werthusiad Adroddiad Astudio o adnoddau gwybodaeth](#) a gyhoeddwyd yn 2023, defnyddiodd lechyd Cyhoeddus Cymru grwpiau ffocws a chyfweiliadau manwl gyda defnyddwyr gwasanaethau, i archwilio agweddau tuag at frechiadau, yn ogystal ag ymwybyddiaeth a barn am wybodaeth am frechiadau. Yn ogystal, cyhoeddodd lechyd Cyhoeddus Cymru [arolwg o agweddau rhieni](#) yn 2021, gyda'r nod o lywio'r rhaglen frechu cyn ysgol, sicrhau bod cyfathrebu lechyd Cyhoeddus Cymru â rhieni yn diwallu eu hanghenion a datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r hyder mewn brechlynnau yng Nghymru. Mae rhai o'r canfyddiadau'n cynnwys:

- Mae rhieni sy'n cael eu dosbarthu fel 6 C2DE² (9%) a rhieni anabl (19%) yn fwy tebygol o fod ag amheuan ynghylch diogelwch brechlynnau.
- Mae siaradwyr Cymraeg yn llai tebygol na grwpiau eraill o fod wedi gweld neu glywed gwybodaeth am frechu yn ystod y 12 mis diwethaf (77%).
- Mae grwpiau oedran iau (16-24), rhieni plant o dan 18 oed, y rhai sy'n derbyn Credyd Cynhwysol a phobl sy'n nodi eu bod yn drawsryweddol yn fwy tebygol o fod wedi dod ar draws gwybodaeth am frechiadau sy'n peri pryder.
- Mae pobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn fwy tebygol o raddio nifer o glefydau y mae rhaglen frechu Cymru yn amddiffyn rhagddynt fel rhai nad ydynt yn ddifrifol, felly hefyd pobl LHDTC+.

Bydd ymgysylltu yn parhau â'r holl randdeiliaid perthnasol hyd at y cam gweithredu a thu hwnt er mwyn datblygu a chynnal ymgyrch ymwybyddiaeth wedi'i thargedu i ddarparu gwybodaeth i famau beichiog / rhieni/ gwarcheidwaid

¹ <https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/engagement-insights/evaluation-of-information-resources-ethnic-minorities-summary-report-2023/>

² mae'r rhai sy'n ddi-waith a'r rhai sy'n cael eu haddysgu i lefel is na gradd yn llai tebygol na'r cyfartaledd o ystyried y clefydau hyn yn ddifrifol.

am risgiau a thriniaeth RSV i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch a ddylai menywod beichiog gael brechiad neu a ddylid rhoi caniatâd i'w plentyn dderbyn y driniaeth RSV. Un enghraifft fydd cynnwys cwestiynau am frechiadau RSV yn arolwg misol Iechyd Cyhoeddus Cymru 'Amser i Siarad' sy'n cael ei ddsbarthu i'r cyhoedd. Bydd y negeseuon hyn yn cael eu bwrw ymlaen ar lefel leol dosbarthu'n lleol gan dimau cyfathrebu byrddau iechyd i gyrraedd eu trigolion.

Mae'r NIF yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd gael cynlluniau ar waith er mwyn cynyddu nifer y bobl sy'n cael eu brechu mewn grwpiau anodd eu cyrraedd - er enghraifft, mewn cymunedau difreintiedig yn gymdeithasol ac mewn pobl o gefndiroedd ethnig leiafrifol penodol. Bydd gwyliadwriaeth brechu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn monitro'r nifer sy'n dewis cael eu brechu mewn grwpiau penodol anodd eu cyrraedd.

3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

Ni fydd cymhwysra i gael brechiad yn cael ei ymestyn y tu hwnt i gyngor clinigol JCVI a bydd yn cael ei lywodraethu gan amodau'r drwydded fesul brechlyn (cohort oedran ac ati). Bydd brechiad yn cael ei gynnig i bob unigolyn cymwys waeth beth fo'u rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hil, dewis iaith, anabledd, crefydd neu gredoau, statws economaidd-gymdeithasol neu ymlyniad gwleidyddol. Bydd cynlluniau cyfathrebu wedi'u targedu yn cael eu datblygu i godi ymwybyddiaeth o RSV ac mae'n ofynnol i bob bwrdd iechyd yng Nghymru gael cynlluniau tegwch ar waith er mwyn sicrhau y bydd pawb sy'n gymwys yn cael cynnig brechlyn, yn enwedig mewn ardaloedd anodd eu cyrraedd yn y gymuned.

Mae disgwyl i frechu gael effaith gadarnhaol ar y grwpiau cymwys hynny, fel mesur ataliol i amddiffyn rhag RSV - gyda'r nod o gadw pobl yn ddiogel rhag afiechyd difrifol, arhosiad yn yr ysbyty a marwolaeth. Byddai'r rhaglen frechu yn cyfyngu ar y gyfradd heintio hefyd ac yn lleihau nifer yr achosion difrifol yn y gymuned. Bydd y rhaglen hon yn lleihau effaith RSV ar wasanaethau iechyd cyhoeddus hefyd.

Effaith negyddol fyddai pe bai mam feichiog yn penderfynu yn erbyn y brechlyn i fenywod beichiog neu pe bai rhiant/rhieni/gwarcheidwad/gwarcheidwaid babanod newydd-anedig yn gwrthod caniatâd i roi'r driniaeth RSV gan greu risg negyddol i'r plentyn o ddal RSV a datblygu cymhlethdodau difrifol a allai arwain at gyfnod yn yr ysbyty. Byddai'n cyfrannu at y pwysau yng ngwasanaethau'r GIG yn ystod tymor RSV hefyd.

Mae amddiffyn babanod newydd-anedig rhag datblygu RSV trwy dderbyn triniaeth babanod yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawl plant mewn perthynas â'r canlynol –

Erthygl 3 - Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

Erthygl 5 - Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfeirio ac arwain eu plant fel eu bod, wrth dyfu, yn dysgu sut i ddefnyddio'u hawliau'n briodol.

Erthygl 6 - Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach; a

Erthygl 24 - mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da.

Mae amddiffyn y baban yn y groth trwy roi'r brechlyn i fenyw feichiog o 28 wythnos ymlaen o'r cyfnod beichiogrwydd yn cefnogi ac yn hyrwyddo hawliau'r plant mewn perthynas â'r canlynol -

Erthygl 18 - Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni trwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio.

- Sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y nodir gan erthyglau CCUHP a'i Brotocolau Dewisol? Cyfeiriwch at yr [erthyglau](#) i weld pa rai sy'n gymwys i'ch polisi eich hun.

Erthyglau neu Brotocol Dewisol CCUHP	Yn gwella (X)	Yn herio (X)	Esboniad
Erthygl 6 - Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach	X		Bydd rhoi naill ai'r brechlyn i fenywod beichiog neu'r driniaeth i fabanod yn amddiffyn y plentyn rhag datblygu RSV, yn cynyddu amddiffyniad ar lefel y boblogaeth ac yn lleihau nifer y babanod sy'n ymglyfwyno mewn meddygfeydd ac ysbytai gyda symptomau RSV difrifol. Mae hyn yn cefnogi Erthygl 6.
Erthygl 3 - Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.	X		
Erthygl 5 - Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfeirio ac arwain eu plant fel eu bod, wrth dyfu, yn	X		
			Bydd pob sefydliad yn darparu cymorth i sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o risgiau RSV i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch derbyn brechlyn a thriniaeth. Mae hyn yn cefnogi Erthyglau 3,5 a 18.

dysgu sut i ddefnyddio'u hawliau'n briodol.			
Erthygl 18 - Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni trwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio.	X		
Erthygl 24 - mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da.	X		Yn y tymor hir, bydd cyflwyno naill ai'r brechlyn i fenywod beichiog neu'r driniaeth i fabanod yn gwella ansawdd y gofal iechyd sydd ar gael i atal RSV mewn plant. Mae hyn yn cefnogi Erthygl 24.

Mae darparu'r rhaglenni brechu/triniaeth hyn hefyd yn ystyried ymrwymiad y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol blaenorol, Julie Morgan AS, i adlewyrchu argymhellion Arsylwadau Terfynol CCUHP mewn penderfyniadau polisi iechyd. Bydd yn cryfhau argaeledd gwasanaethau iechyd sylfaenol ac arbenigol pediatrig o ansawdd, sy'n sensitif i blant ac sy'n briodol i'w hoedran i bawb yr ystyrir eu bod yn gymwys yn unol â chyngor y JCVI, fel y manylir yn yr erthyglau iechyd a lles sylfaenol (erthyglau 6, 18 (3), 24, 26, 27 (1)–(3) a 33).

further information on the [UNCRC](#) and its *Optional Protocols*, please visit the [Children's Rights Intranet Page](#).

I gael rhagor o wybodaeth am y [CCUHP](#) a'i Brotocolau Dewisol, ewch i'r [dudalen Hawliau Plant ar y Fewnwyd](#).

4. Cyngor a phenderfyniad gweinidogol

- Sut bydd eich dadansoddiad o'r effeithiau hyn yn llywio eich cyngor gweinidogol?

Rydym yn parhau, yng Nghymru, i gael ein harwain gan y dystiolaeth a'r cyngor clinigol a gwyddonol diweddaraf gan y JCVI o ran amseru a chymhwysra rhaglenni brechu RSV. Ni fydd cymhwysra i gael brechiadau yn cael ei ymestyn y tu hwnt i gyngor clinigol JCVI.

Bydd cyngor y Gweinidog yn nodi y bydd cyflwyno rhaglenni brechu /triniaeth RSV yn cael effaith gadarnhaol ar y rhai sy'n gymwys. Bydd brechu'r grwpiau bregus hyn, fel y nodwyd gan JCVI, yn ceisio atal marwolaeth, arosiadau yn yr ysbyty/salwch ac yn lleihau'r baich ar GIG Cymru. Byddai'n cyfyngu ar y gyfradd heintio ac yn lleihau nifer yr achosion difrifol yn y rhai sydd wedi'u himiwneiddio. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd y rhai sydd wedi'u brechu a bydd yn lleihau effaith RSV ar wasanaethau iechyd cyhoeddus.

5. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

- *Yn dilyn y penderfyniad gweinidogol, dylid cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wefan Llywodraeth Cymru.*

- *Anfonwch adrannau 1 ac 8 o'ch Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (Atodiad A) at reolwr gwe eich adran i'w cyhoeddi.*

6. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

- Os ydych chi wedi ceisio barn plant a phobl ifanc ar eich cynnig, sut byddwch yn eu hysbysu o'r canlyniad?

Nid ydym wedi cwblhau unrhyw waith cyfranogol gyda phlant gan fod y rhaglen frechu/triniaeth mamau/babanod wedi'i thargedu at fenywod beichiog a babanod newydd-anedig (hyd at 27 diwrnod oed). Gofynnwyd am farn grwpiau hawliau plant hefyd ac maen nhw wedi'u cynnwys yn yr asesiad hwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu cynllun cyfathrebu wedi'i dargedu i godi ymwybyddiaeth o RSV i'r rhai sy'n gymwys.

Bydd datganiad ysgrifenedig Gweinidogol a chylchlythyr iechyd Cymru yn cael eu cyhoeddi ar ôl i benderfyniad polisi a chyllid gael ei gytuno yng Nghymru ac ar ôl dyfarnu contractau i'r gwneuthurwyr brechlynnau.

7. Monitro ac Adolygu

Mae'n hanfodol ailedrych ar eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i weld a wnaeth yr effeithiau a nodwyd gennych yn wreiddiol ddwyn ffrwyth, ac a oedd unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

Amlinellwch pa fecanwaith monitro ac adolygu y byddwch yn ei roi ar waith i adolygu'r Asesiad hwn.

Yn dilyn yr adolygiad hwn, a oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r polisi neu lo ran ei weithredu?

Bydd y broses o weithredu'r rhaglenni brechu/triniaeth RSV yn cael ei monitro gan Raglen Frechu Cymru a fydd yn adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru drwy'r Bwrdd Goruchwyllo Brechu fel rhan o'r trefniadau llywodraethu cenedlaethol.

Mae bwrdd prosiect pedair cenedl wedi'i sefydlu i drafod y gwaith o weithredu'r rhaglen ac i alinio'r ffordd y caiff ei chyflwyno er mwyn sicrhau cysondeb ledled y DU a Gogledd Iwerddon. Bydd y cyfarfodydd hyn yn parhau i fonitro'r cynnydd ynghyd â chyfarfodydd ar lefel swyddogol. Bydd system wylidwriaeth yn cael ei chreu hefyd i gasglu data gan feddygfeydd a gwasanaethau bydwreigiaeth yng Nghymru ar y nifer sy'n cael eu brechu, yn unol â rhaglenni brechu eraill.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gysylltu â'r holl randdeiliaid perthnasol y tu hwnt i'r cam gweithredu i fonitro cynnydd a gwerthuso'r cam cyflwyno cychwynnol. Bydd swyddogion yn parhau i fynychu cyfarfodydd brechu JCVI, fel arsylwyr, i fonitro unrhyw drafodaeth yn y dyfodol ar RSV ac unrhyw newidiadau y gallent eu cynghori.